# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Terry Hennegan | Adran Etholiadol: | Penderi |
|---|---|---|---|

**Adran 1:** Gweithgareddau yn yr etholaeth

- Cynhaliwyd 2 gymhorthfa fisol yn Eglwys Teilo Sant, Portmead a Chanolfan Gymunedol De Penlan. Rwy'n credu bod ymweliadau â thai etholwyr yn fwy buddiol na chymorthfeydd.
- Ymholiadau safle sipsiwn a theithwyr.
- Cae pêl-droed ac ystafell wisgo Blaenymaes - helpais grŵp i reoli a chynnal a chadw cyfleuster trwy brydles. Cynorthwyais y grŵp i lunio cyfansoddiad.
- Roedd lle chwarae newydd Blaenymaes yn llwyddiant ysgubol.
- Prosiect Amgylcheddol Cymunedau'n Gyntaf a hyfforddiant ar draws yr ardal – prosiect parhaus gyda rhagor o ymgynghoriad.
- Cyfranogaeth barhaus gyda Cymunedau'n Gyntaf – yn benodol gyda Grŵp Llywio'r Clwstwr, prosiect iechyd a ffitrwydd ac yn ddiweddar cymerais ran mewn Digwyddiad Pobi Llawn Hwyl Penderi.
- Coed wedi gordyfu yn Llys Mount Batten ac o'i gwmpas.
- Diogelwch Ffyrdd, beiciau oddi ar y ffordd a fan gamera wedi'u dirprwyo ger ysgol – parhaus.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 3 | / | 7 | 43 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 3 | / | 5 | 60 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Y Cyngor | 16 | / | 17 | 94 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 4 | / | 7 | 57 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Pobl | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 21 | / | 22 | 91 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **39** | **/** | **51** | **76** | **%** |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu | | | | | |
| Gweithgor y Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Diwylliant Corfforaethol | 3 | / | 7 | 43 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Cludiant Cyhoeddus | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **6** | **/** | **10** | **60** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

- Aelod etholedig Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a oedd yn cynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, y Grŵp Cynllunio Cyllideb Gorfforaethol a'r Pwyllgor Disgyblu ac Archwilio.

- Aelod o'r paneli/gweithgorau ymchwilio craffu canlynol: Gwasanaethau Adeiladu Corfforaethol; Diwylliant Corfforaethol; Cynnwys y Cyhoedd a Cludiant Cyhoeddus.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

- Pwyllgor Arbennig y Rhaglen Graffu (Sipsiwn/Teithwyr).
- Aelod o Bwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau a Phwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu.
- Benthyciadau diwrnod talu - llwyddiant.
- Banc bwyd – Anogais gyfraniadau at fanciau bwyd – dosbarthais/trosglwyddais stoc.
- Cefnogais aelodau Panel Diwylliant Corfforaethol i ddatblygu tir.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
25/11/2014 - Y Ffordd Orau o Ddefnyddio Gwybodaeth am Berfformiad

Yn ychwanegol:
- 20 mlynedd o dai cymdeithasol, cyfraith/deddfwriaeth yn cwmpasu dyraniadau, trosglwyddiadau, o'r dreth ystafell wely, yr ymgyrch Daylight Robbery, is-gwmni i'r trysorlys yng nghyfarfod diwethaf y cyngor (gyda Dinas a Sir Abertawe heb orfod talu £6 miliwn y flwyddyn yn ôl), disodli, adleoli a'r Ddeddf Iawndal Tir. Llwyddiant ysgubol ar ôl 18 mlynedd o ymgyrchu.
- Ymgynghorydd Tai Annibynnol Hunangyflogedig – Gweithgorau Llywodraeth Cymru'n edrych ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Rheoli tai ansawdd gorau a gweithiau mawr a mân/sgorau iechyd a diogelwch tai.
- Pobl mewn Cymunedau/Cymunedau'n Gyntaf – aelod o Grŵp Llywio'r Clwstwr ac yn rhan o'r rhaglen ers ei sefydlu. Hefyd yn rhan o fonitro Cynllun Cyflwyno Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf lleol.
- Ymchwil ac adroddiad cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon at ddefnydd hyfforddi.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fel aelod ward leol ar gyfer Ward Penderi, rwy'n cadw at y tair A: Ar gael, Atebol, Agos atoch.

Rwy'n dangos hyn trwy ran o'm dyletswyddau dyddiol sy'n cynnwys rhoi help a chyngor dros y ffôn. Rwyf hefyd yn ymweld â chartrefi etholwyr ar wahoddiad i roi cyngor fel y bo'n briodol. Rwy'n ceisio rhoi'r cyngor cywir i etholwyr ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig gwneud hyn mewn ffordd glir a chryno. Rwyf wedi ennill enw da am roi 100% i'm hetholwyr ac rwy'n credu mai'r bobl bwysicaf yw'r rhai rwy'n eu cynrychioli.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,300 y flwyddyn.
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 14.10.15 |